



**YSGOL GYNRADD GYMRAEG  
PONTYBRENIN**

**Prospectws 2025/26 Prospectus**





# Gair o Groeso gan y Pennaeth

## Welcome from the Head Teacher

Annwyl Gyfeillion,

Mae'n bleser cyflwyno'r copi hwn o brospectws Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin i chi.

Ysgol gynradd sirol, benodedig Gymraeg yw hon a leolir ym Mhontybrenin, Gorseinon. Agorwyd yr ysgol ym 1952 ac mae'n gwasanaethu ardal eang sy'n ymestyn o Benrhyn Gwyr hyd gyrion Gorllewin Dinas Abertawe. Mae'r galw am lefydd yn yr ysgol yn dal i dyfu, gyda fwyfwy o rieni yn adnabod gwerth addysg ddwyieithog i'w plant.

Ar hyn o bryd mae 26 athro/awes a 23 cynorthwydd yn gweithio yn yr ysgol, yn ogystal â 3 aelod o staff ategol. Mae'r tîm yn frwdfrydig iawn ac yn gweithio'n gydwybodol i godi safonau a pharhau i wella yr ysgol. Rydym yn ymfalchïo yn safonau cyrhaeddiad uchel yr ysgol, ac mae'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol hefyd yn bwysig i ni, gyda disgyblion yn ennill clod a phrofi llwyddiant mewn amrywiol feysydd, gan gynnwys Eisteddfodau'r Urdd a chystadlaethau chwaraeon a chelf.

Pwysleisir meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o ddwyieithrwydd yn rhan annatod o fywyd yr ysgol. Credwn mai trwy feithrin cydweithio agos rhwng y cartref a'r ysgol y meddir gwneud y gorau i'ch plentyn.

Mawr hyderwn y bydd y prospectws hwn yn gam pwysig tuag at gryfhau'r berthynas honno rhwng eich teulu chi a theulu Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin Hyderwn hefyd y bydd pob unigolyn yn falch o fod yn perthyn i'r teulu hwn.

Rydym yn ysgol sy'n parchu hawliau plant a chydabyddwn fod gan bob un o dan 18 oed hawliau waeth beth [Erthygl 1 a 2 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)]

Wedi i chi ddarllen y prospectws hwn, gobeithiaf y byddwch yn dymuno cael mwy o wybodaeth am yr ysgol. Os felly, cysylltwch â ni i wneud eich apwyntiad am ymweliad. Pleser o'r mwyaf fyddai croesawu chi i'r ysgol.

**Mr Ceri Scourfield**  
**Pennaeth**

*Dear Friends,*

*It is a pleasure to present this copy of Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin's prospectus to you.*

*This is a designated bilingual county primary school, situated in Kingsbridge, Gorseinon. The school was opened in 1952 and serves a wide area which extends from the Gower to the outlying areas of West Swansea. The demand for school places continues to grow with more and more parents recognizing the value of a bilingual education for their children.*

*Currently there are 26 teachers and 23 teaching assistants working in the school as well as 3 ancillary members of staff. The team is extremely enthusiastic and work conscientiously to raise standards and improve the school. We are proud of the school's high standard of achievement and our wide range of extra-curricular activities are also important to us, with students earning praise and tasting success in a variety of fields, including the Urdd Eisteddfod and art and sport competitions.*

*Acquiring information and an understanding of the culture of Wales is emphasised as well as mastering fluency in the Welsh Language. Bilingualism is an integral part of school life. We believe that the child will be best served by fostering close co-operation between home and school.*

*We very much hope that this prospectus will be an important step towards strengthening the relationship between your family and the Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin family. We also hope that every individual will feel proud to belong to this family.*

*We are a school which respects the rights of children and we recognise that everyone under the age of 18 have rights [Article 1 & 2 of the United Nations Convention on the Rights of the Child - (UNCRC)]*

*Once you have read this prospectus, I do hope that you will want further information about the school. If so, please contact us to make an appointment for a visit. It would be a pleasure to welcome you to the school.*

**Mr Ceri Scourfield**  
**Headteacher**





## Ethos a Chenadwri

### Ethos and Mission

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin yn anelu at gynnis addysg o'r safon orau sy'n ceisio ateb anghenion yr unigolyn mewn awyrgylch cefnogol, hapus a hollol Gymreig. Anogir pob disgybl i ddatblygu hunan barch ac agweddau cadarnhaol a chyfrifol at fywyd yn gyffredinol.

Mae ethos waith cadarn yn yr ysgol a'r nòd yw ysgogi pob disgybl i gyrraedd y safonau uchaf bob amser.

Mae ethos Gymreig yr ysgol yn adlewyrchu etifeddiaeth foesol, ysbrydol a diwylliannol Cymru ac yn creu fframwaith ar gyfer bywyd, gwaith a chenadwri'r ysgol.

Selir yr ethos hwn ar werthoedd Cristnogol anenwadol sy'n ganllaw gadarn ar gyfer bywyd bob dydd yr ysgol.

*Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin aims to offer the best standards in education which attempt to answer the needs of the individual in a supportive, happy and fully Welsh atmosphere. Every pupil is encouraged to develop self-respect as well as positive and responsible attitudes towards life in general.*

*There is a strong work ethos in the school and the goal is to motivate every pupil to achieve the highest standards at all times.*

*The Welsh ethos in the school reflects the moral, spiritual and cultural inheritance of Wales and creates a framework for the life, work and mission of the school.*

*This ethos is based on non denominational Christian values which represent strong guidelines for the everyday life of the school.*

## Amcanion Penodol

### Specific Objectives

- Rhoi cyfle i bob disgybl ddatblygu hyd eithaf ei [g]allu yn academiaidd, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn gorfforol.
- Rhoi cyfle i bob disgybl feistrolir grefft o gyfathrebu yn y Gymraeg yn arbennig fel cyfrwng dysgu.
- Annog pob disgybl i gyfrannu'n llawn yn ôl ei [d]doniau i gymuned yr ysgol ac i'r gymuned ehangach, yn lleol a chenedlaethol.
- Cynnig yr un cyfle i bawb heb wahaniaethu ar sail gallu, rhyw, hil na chrefydd.

Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn [Erthygl 3 o'r CCUHP]

- *To give every pupil the opportunity to develop to the best of his/her ability academically, socially, culturally and physically.*
- *To give every pupil the opportunity to master the skill of communicating in Welsh especially as a medium of learning.*
- *To encourage every pupil to contribute fully, according to his/her abilities, to the school community and the wider community, both locally and nationally.*
- *Offer everyone equal opportunity without discrimination on the grounds of ability, sex, race or religion.*

*Every organisation which deals with children should at all times do their utmost to do their best for each child [Article 3 of UNCRC]*



# Iaith Language

Iaith swyddogol yr ysgol yw'r Gymraeg a dyma gyfrwng dysgu ac asesu pob maes ar wahan i Saesneg a gyflwynir ym Mlwyddyn 3. Yn y blynyddoedd cynnar fe drwythir y plant yn y Gymraeg er mwyn sicrhau meistrolaeth o'r iaith yn ieuanc.

Gwneir hyn gyda sensitifrwydd a chan gymryd iaith y cartref i ystyriaeth. Os yw plentyn di-Gymraeg yn ymuno â'r ysgol yn y blynyddoedd lau fe wneir defnydd o'r ganolfan iaith a ddarperir gan y Sir. Nod yr ysgol yw i bob plentyn fod yn rhugl ddywieithog erbyn diwedd Blwyddyn 6.

# Mynediad i'r ysgol Admission to the school

Cynigir addysg feithrin ran amser i bob plentyn o'r Mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Fe gyfyd cyfleon ar brydiau i blant ddechrau ynghynt wedi eu pen-blwydd, yn ddibynnol ar adnoddau'r ysgol. Pan ddigwydd hyn bydd yn seiliedig ar ddyddiadau geni y gofrestr.

Er mwyn hwyluso trefniadau mynediad yr ysgol gwerthfawrogid pe bai rhieni darpar ddisgyblion yn cysylltu â'r ysgol cyn gynted â phosib er mwyn gosod eu plentyn ar y rhestr hon. Dylid pwysleisio mae mynegi diddordeb y byddwch drwy wneud hyn ac nid yw ar unrhyw gyfrif yn ymrwymiad terfynol.

Cynhelir cyfarfod agored i rieni yn ystod y tymor cyn mynediad y plentyn i'r ysgol. Fe 'ch hysbysir drwy lythyr am y cyfarfod hwn sy'n gyfle i weld y dosbarth, sgwrsio a'r athrawes a gwneud ymholiadau. Mae croeso i wneud ymholiadau cyffredinol ar unrhyw adeg.

Bydd pob plentyn yn dechrau mynychu'r ysgol yn llawn amser ar ddechrau'r flwyddyn ysgol yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Nid oes trosglwyddiad awtomatig o'r Meithrin i'r Derbyn, a gan mai Awdurdod Addysg Lleol Abertawe yw'r Awdurdod Derbyn, yr Awdurdod sydd yn ystyried ceisiadau.

Os digwydd bod mwy wedi dewis anfon eu plant i'r ysgol nag sydd o le ar eu cyfer (h.y. mwy na 71) ystyrir ceisiadau yn unol â'r meini prawf canlynol a restrir yn nhrefn blaenoriaeth:

- Nifer y plant y gellir eu derbyn i'r ysgol (h.y. rhif derbyn yr ysgol ar gyfer bob blwyddyn ysgol);
- Dalgylch daearyddol yr ysgol (h.y. dalgylch diffiniedig). Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o ddalgylch eang sy'n ymestyn o Benrhyn Gwyr hyd gyron Gorllewin Dinas Abertawe. Gofynnir i rieni gysylltu ag Adran Mynediad Ysgolion yr Awdurdod er mwyn cadarnhau eu dalgylch nhw;
- A oes gan y darpar ddisgybl frawd neu chwaer yn yr ysgol;
- Wedi'r meini prawf uchod, lle mae rhif ceisiadau dal yn uwch na'r rhif derbyn, agosrwydd y cartref i'r ysgol bydd y meini prawf terfynol.

Mae gan bob plentyn yr hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol [Erthygl 28 o'r CCUHP

*Welsh is the official language of the school and is the medium of instruction and assessment in all areas, with the exception of English which is introduced in Year 3. During the early years, the children are immersed in the Welsh Language in order to ensure that they master the language at an early age.*

*This is done with sensitivity while taking into account the language of the home. If a non-Welsh speaking child joins the school in the junior years, use will be made of the language centre provided by the County. It is the school's aim that all children are completely bilingual by the end of Year 6.*

*Part time nursery education is offered to every child from the September following their third birthday. Opportunities sometimes arise for pupils to start earlier, following their third birthday, depending on school resources. When this situation arises admission will be according to the dates of birth within the register.*

*To facilitate our long term planning admission arrangements parents are asked to contact the school as early as possible to place their child on this list. It should be stressed that this is merely an indication of interest.*

*An open meeting for parents is held during the term prior to admission. You will be notified of this meeting by letter. It provides an opportunity to see the nursery unit, speak to the staff and make general enquiries.*

*Every child will start attending the school on a full time basis at the beginning of the school year following their fourth birthday. There is no automatic transfer from the nursery class to the reception class and as the Swansea Local Education Authority is the Receiving Authority, it is the Authority that considers the applications.*

- If more people decide to send their children to the school than there is space for them (i.e. more than 71) then each application will be considered pursuant to the following criteria, listed below in order of priority:*
- *The number of children that the school can accept ( i.e. the admission number for each school year group).*
  - *The geographical catchment of the school (i.e. defined catchment area). The school accepts pupils from a wide catchment which extends from the Gower to the outlying areas of West Swansea. We ask that parents contact the Authority's School Admissions Department to confirm their catchment area.*
  - *If the prospective student has a brother or sister at the school;*
  - *Where the above criteria is met and the applications remain in excess of the places available, distance from the home to the school will be the final deciding criterion.*

*Every child has the right to an education and to attend school [Article 28 of the UNCRC]*

Er mwyn gwneud cais am le yn yr ysgol, rhaid cyflwyno ceisiadau i Ddinas a Sir Abertawe erbyn Tachwedd 28ain 2025.

Ni chaniateir trefnu rhestr aros. Gellir gwneud cais am le trwy gasglu ffurflen mynediad o swyddfa'r ysgol, neu drwy'r ddolen gyswllt ar wefan yr ysgol.

Ceir gwybodaeth bellach ar wefan Dinas a Sir Abertawe -

[www.abertawe.gov.uk/gwneudcaisysgol](http://www.abertawe.gov.uk/gwneudcaisysgol)

*To make an application for a school place, applications must be made to the City & County of Swansea by November 28th 2025.*

*Waiting lists are not allowed. You can make an application by collecting an application form from the school office or through the link on the school website.*

*More information can be found on the City and County of Swansea website:*

[www.swansea.gov.uk/applyforaschoolplace](http://www.swansea.gov.uk/applyforaschoolplace)





## Trosglwyddo disgyblion Transferring Pupils

Datblygwyd cysylltiadau da rhyngom ni ag Ysgol Gyfun Gŵyr, sef ysgol uwchradd Gymraeg ein dalgylch. Mae mwyafrif helaeth ein plant yn dewis mynd yno yn dilyn eu cyfnod yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin.

Mae'r trefniadau pontio yn cynnwys rhannu gwybodaeth gyson, ymweliadau gan diwtor blwyddyn 7 a chyd-gysylltydd Anghenion Addysgol, cwrs preswyl pontio i'r disgyblion yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog, derbyn llawlyfr, ymweliadau â'r ysgol i'r plant a chyfarfodydd rhieni fin nos.

## Cludiant i'r ysgol School Transport

Trefnir cludiant rhad gan yr Awdurdod Addysg i bob disgybl llawn amser sy'n byw dwy filltir neu ymhellach o'r ysgol ond o fewn dalgylch swyddogol yr ysgol. Gellir gwneud cais am ddefnydd o seddi gweigion gan y rheiny sy'n byw y tu allan i'r dalgylch, neu'n agosach na dwy filltir ond disgwylir tâl am y cludiant hwn.

Mae gan bob plentyn yr hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol [Erthygl 28 o'r CCUHP]

## Talu am Weithgareddau Paying for activities

Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1988, nid yw'r ysgol yn codi tâl am addysg yn ystod oriau ysgol;

Gofynnir am gyfraniadau gwirfoddol i dalu costau cludiant ar gyfer ymweliadau addysgol, ond gwneir pob ymdrech i gadw'r costau hynny i'r lleiafswm. Caiff disgyblion Blynnyddoedd 5 gyfle i dreulio tridiau preswyl yng Nghanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd a gwahoddir disgyblion Blwyddyn 6 i dreulio 3 diwrnod yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog fel rhan o'r cwrs pontio gydag Ysgol Gyfun Gŵyr.

Anfonir yr wybodaeth berthnasol a chostau i rieni ar ffurf llythyr neu neges electronig, pan fo hynny'n briodol, gydag o leiaf pythefnos o rybudd. Cynigir cymorth i dalu am ymweliadau preswyl yn ystod oriau ysgol os yw rhieni yn derbyn Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill sydd wedi'u profi ar sail modd.

Mae'r ysgol bob amser yn barod i drafod taliadau pan mae rhieni / gwarchodwyr yn pryderu am gostau sy'n ymwneud â'r ysgol.

*Very good relationships have been established between ourselves and Ysgol Gyfun Gŵyr, our catchment's Welsh medium comprehensive, where the majority of our pupils choose to continue their education following their time at Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin.*

*The transition arrangements include the constant sharing of information, visits by the Year 7 tutor and ALN co-ordinator, residential course at the Urdd Centre in Llangrannog, handbook, visits to Gŵyr and parents evenings.*

*The Education Authority organises free transport for every full-time pupil living further than two miles from the school but within the official catchment area. An application for an empty seat can be made by those living within 2 miles of the school or outside the catchment area, but there is a charge for this service.*

*Every child has the right to an education and to attend school [Article 28 of the UNCRC]*

*In accordance with the Education Act 1988, the school does not charge for education during school hours.*

*The school invites voluntary contributions to cover the cost of educational visits, although we do make every effort to keep those costs to a minimum. Pupils in Year 5 have the opportunity to attend a three-day residential experience at the Urdd Centre in Cardiff and Year 6 pupils are invited to spend 3 days in the Urdd Centre in Llangrannog as part of the transition course with Ysgol Gyfun Gŵyr.*

*Relevant information about costs will be sent to parents by letter or in electronic format, where appropriate, with at least two weeks' notice. Support is offered to pay for food and accommodation provided for pupils on residential trips during school hours if the parents receive Universal Credit or other means-tested social security benefits.*

*The school is always willing to discuss payments when parents/guardians are concerned about school costs.*







## Clwb Brecwast Breakfast Club

Darperir Clwb Brecwast yn foreol i holl ddisgyblion yr ysgol, o'r Derbyn i Flwyddyn 6, gyda drysau ar agor o 8:10yb tan 8:20yb

Yn ystod y cyfnod hwn gall y plant fynd i'r neuadd i fwynhau tost, grawnfwyd a ffrwythau. Sicheir goruchwyliaeth o'r disgyblion yn y neuadd hyd at amser cofrestru am 8.50yb.

*A daily breakfast Club is open to all school pupils, from Reception to Year 6, with the doors being open from 8:10am until 8:20am*

*During this period children can use the school hall to enjoy toast, cereal and fruit. Supervision of pupils in the hall is ensured during this time and continues until registration time at 8.50am*

## Prydau Ysgol School dinners

Darperir prydau twym yn ddyddiol. O ganlyniad i raglen prydau ysgol am ddim Llywodraeth Cymru, bydd hawl gan bob disgybl i brydau ysgol am ddim os dymunir.

Gall eich plentyn ddod â brechdanau / pecyn bwyd gydag ef/hi os yw hyn yn well gennych. Mae'r ysgol yn aelod o'r 'Rhwydwaith Ysgolion Iach' ac yn rhoi pwyslais mawr ar fwyta'n iach. Goruchwylir disgyblion yn ystod yr awr ginio gan gynorthwyywyr.

*Cooked meals are provided daily. The Welsh Government's universal free school meal provision means that all primary school pupils receive free school dinners if they so wish.*

*If you prefer, your child may bring a packed lunch to school. The school is a member of the 'Healthy Schools Network' and encourages healthy eating. Pupils are supervised during the lunch hour by supervisors.*

## Clwb Gofal Care Club

Mae Clwb Gofal, a reolir gan fusnes allanol, ar agor yn dyddiol o 3.20yh tan 5.15yh ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol. Codir tal o £5.50 y dydd, gyda gostyngiad o £1 i frodyr a chwiorydd. Darperir ystod o weithgareddau yn y clwb gan gynnwys celf & chrefft a chwaraeon. Sicheir goruchwyliaeth o'r disgyblion yn y neuadd a thu allan yn ystod y cyfnod hwn gan gynorthwyywyr y clwb hyd at 5.15yh.

*The Clwb Gofal, which is run by a private company, is open daily for all school pupils, between 3.20pm until 5.15pm. The cost is £5.50 per day with a discount of £1 for siblings. A number of activities are provided by the club, including arts and crafts and sports. Supervision of pupils is maintained in the hall and on the yard during this period by club supervisors until 5.15pm.*

## Oriau'r Ysgol School Hours

### Blwyddyn 5 & 6

**Sesiwn 1** 8.50yb - 10.20yb  
**Egwyl** 10.20yb - 10.40yb  
**Sesiwn 2** 10.40yb - 12.00yh  
**Cinio** 12.00yh - 1.00yh  
**Sesiwn 3** 1.00yh - 3.20yh

### Blwyddyn 3 & 4

**Sesiwn 1** 8.50yb - 10.20yb  
**Egwyl** 10.20yb - 10.40yb  
**Sesiwn 2** 10.40yb - 12.00yh  
**Cinio** 12.00yh - 1.00yh  
**Sesiwn 3** 1.00yh - 3.20yh

### Years 5 & 6

**Session 1** 8.50am - 10.20am  
**Break** 10.20am - 10.40am  
**Session 2** 10.40am - 12.00pm  
**Lunch** 12.00pm - 1.00pm  
**Session 3** 1.00pm - 3.20pm

### Years 3 & 4

**Session 1** 8.50am - 10.20am  
**Break** 10.20am - 10.40am  
**Session 2** 10.40am - 12.00pm  
**Lunch** 12.00pm - 1.00pm  
**Session 3** 1.00pm - 3.20pm

### Blwyddyn 1 & 2

**Sesiwn 1** 8.50yb - 10.20yb  
**Egwyl** 10.20yb - 10.40yb  
**Sesiwn 2** 10.40yb - 12.00yh  
**Cinio** 12.00yh - 1.00yh  
**Sesiwn 3** 1.00yh - 2.20yh  
**Egwyl** 2.20yh - 2.40yh  
**Sesiwn 4** 2.40yh - 3.20yh

### Derbyn

**Sesiwn 1** 8.50yb - 11.30yb  
**Cinio** 11.30yb - 12.45yh  
**Sesiwn 2** 12.45yh - 2.20yh  
**Egwyl** 2.20yh - 2.40yh  
**Sesiwn 3** 2.40yh - 3.20yh

### Years 1 & 2

**Session 1** 8.50am - 10.20am  
**Break** 10.20am - 10.40am  
**Session 2** 10.40am - 12.00pm  
**Lunch** 12.00pm - 1.00pm  
**Session 3** 1.00pm - 2.20pm  
**Break** 2.20pm - 2.40pm  
**Session 4** 2.40pm - 3.20pm

### Reception

**Session 1** 8.50am - 11.30am  
**Lunch** 11.30am - 12.45pm  
**Session 2** 12.45pm - 2.20pm  
**Break** 2.20pm - 2.40pm  
**Session 3** 2.40pm - 3.20pm

### Meithrin

**Sesiwn Bore** 8.50yb - 11.20yb  
**Sesiwn Prynhawn** 12.40yh - 3.10yh

Bydd disgyblion yn cael eu goruchwyllo am 10 munud ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Gwerthfawrogi prydlondeb er hwylustod i bawb.

Arddangosir a dosberthir manylion ynglŷn â gweithgareddau allgyrsiol a gwyliau i rieni ar ddechrau pob tymor.

### Nursery

**Morning Session** 8.50am - 11.20am  
**Afternoon Session** 12.40pm - 3.10pm

*Pupils will be supervised for 10 minutes prior to the beginning of the school day. We appreciate punctuality as it benefits everyone.*

*Details of extra-curricular activities and holidays will be displayed and distributed to parents at the beginning of each term.*





## Gwisg Ysgol

### School uniform

Mae gan yr ysgol wisg swyddogol a gofynnir i rieni i wneud pob ymdrech i gefnogi hyn trwy wisgo eu plant yn addas a thacius. Dylid labelu pob dilledyn. Gellir cael rhagor o wybo-daeth am y wisg a rhestr o ddarparwyr lleol drwy gysylltu â'r ysgol.

#### Gwisg swyddogol yr ysgol

Siwmpwr werdd gyda bathodyn yr ysgol  
Crys polo melyn gyda bathodyn yr ysgol  
Trowsus, sgert, siorts neu frat llwyd  
Ffrog 'gingham' gwyrdd (dewisol yn yr haf)  
Esgidiau du

#### Gwisg Addysg Gorfforol

Esgidiau rhedeg (caedig)  
Trowsus neu siorts ysgafn  
Crys-T neu siwmpwr ysgafn  
Gwisg nofio a thywel

Benthycir dillad priodol i'r disgyblion sy'n cynrychioli timau'r ysgol. Ni chaniateir i unrhyw ddisgybl wisgo gemwaith, gan gynnwys clustlysau yn ystod gwersi Addysg Gorfforol.

*The school has an official school uniform and we ask that parents make every effort to support this by dressing their children appropriately and smartly.*

*Each item of clothing should be labelled with the child's name. You can find more information about the school dress and a list of local distributors by contacting the school.*

#### Official school uniform

Green jumper with the school logo  
Yellow polo shirt with the school logo  
Grey trousers, skirt, shorts or pinafore  
Green gingham dress (optional for summer)  
Black shoes

#### Physical Education Attire

Running shoes (closed toe)  
Light shorts or trousers  
Light T-shirt or jumper  
Swimwear and towel

*Appropriate clothing will be provided to students representing the school teams. Children are not permitted to wear any jewellery, this includes earrings during physical education classes.*

## Gemwaith

### Jewellery

Oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch, gofynnir i ddisgyblion i beidio â gwisgo gemwaith. Pe bai'n angenrheidiol i wisgo clustlws/dlysau dros gyfnod penodol, yna dylid gwisgo 'stud'.

Mae gan bob plentyn yr hawl i gael gofal a'i cadw'n ddiogel [Erthygl 19 o'r CCUHP]

*In the interest of safety pupils are advised not to wear any jewellery. Where it's necessary to wear earrings for a fixed period of time, then studs should be worn.*

*Every child has the right to be cared for and the be kept safe [Article 19 of the UNCRC]*

## Defnydd o'r Gymraeg

### Use of the Welsh language

Gan fod cysylltiadau allweddol rhwng agwedd y plentyn tuag at iaith a'i ddatblygiad ieithyddol, gwneir pob ymdrech i hyrwyddo parch at yr iaith Gymraeg. Rhoddir pwyslais ar yr elfen ddiwylliannol Gymreig hefyd.

Y Gymraeg yw iaith gymdeithasol yr ysgol ac anogir plant i fanteisio ar bob cyfle i'w defnyddio yn gymdeithasol yn ogystal ag o fewn ffiniau'r ysgol. Mae hyn yn hanfodol bwysig yn enwedig i blant sydd yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

Trwythir plant y Meithrin yn y Gymraeg a dyma fydd cyfrwng eu haddysg trwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Cyflwynir a datblygir Saesneg fel cyfrwng yn ystod y bedair mlynedd y mae'r plant yng Nghyfnod Allweddol 2, er mai'r Gymraeg yw'r prif gyfrwng ar draws y cwricwlwm.

*Since there is a crucial relationship between a child's attitude to a language and his/her use of the Welsh language, every effort is made to promote pride in the Welsh Language. The children are also made very much aware of their Welsh cultural heritage.*

*Welsh is the social language of the school and children are encouraged to take advantage of every opportunity. This is especially so with regard to those children who come from non-Welsh speaking homes.*

*Children who start in the Nursery are immersed in Welsh and this remains the medium of their education throughout their time at the school. English is introduced and progressively developed during the four year period of Junior Education, although Welsh remains the main medium across the curriculum.*







## Cysylltu â'r ysgol Contacting the school

Mae cyfathrebu agored ac effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref yn allweddol ac y mae croeso i rieni gysylltu â'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod materion neu broblemau sy'n codi gan ofyn am yr athro dosbarth yn gychwynnol, neu os oes angen pellach, y Dirprwy neu'r Pennaeth. Ceir gwybodaeth a pholisiau amrywiol ar wefan yr ysgol [www.yggponty-brenin.com](http://www.yggponty-brenin.com) ac mae croeso i chi wneud cais am unrhyw wybodaeth benodol drwy law'r swyddfa.

Ceir gwybodaeth berthnasol hefyd o wefan Dinas a Sir Abertawe.

## Trefn Dosbarth Organisation of Classes

Mae'r holl ddosbarthiadau yn ddosbarthiadau o allu cymysg ac fe'u trefnir yn ôl eu dyddiadau geni.

*Open and effective communication between home and school is essential and parents are welcome to contact the school at any time to discuss problems which arise by asking for the class teacher, or if need be, the Deputy Headteacher or the Headteacher. A range of information and policies can be accessed on the school's website: [www.yggponty-brenin.com](http://www.yggponty-brenin.com). You are also welcome to request any specific information via the school office.*

*Other relevant information can also be found on the City & County of Swansea website.*

*All classes are of mixed ability and arranged according to dates of birth.*

## Anghenion Dysgu Ychwanegol Additional Learning Needs

Bydd gan nifer o blant, rywbryd yn ystod eu gyrfa ysgol, anghenion cefnogi ychwanegol o ryw fath. Ein nod yw datblygu dulliau adnabod ac asesu manwl er mwyn adnabod anghenion penodol pob disgybl a threfnu ymyrraeth amserol a pherthnasol ar ei gyfer. Mae'r ysgol hefyd yn ystyried disgyblion talentog neu sydd â gallu arbennig fel unigolion sydd ag anghenion cefnogi ychwanegol.

Byddwn ni, fel rhan o'n dyletswydd addysgu, yn ymateb yn briodol i anghenion o bob math sydd wedi cael eu hadnabod. Byddwn yn ymateb gyda strategaethau megis y defnydd o adnoddau cynorthwyl yn y dosbarth; gwahaniaethu y ffordd rydym yn cyflwyno gwybodaeth i'r dysgwyr; gwahaniaethu'r tasgau sy'n cael eu gosod neu'r ymatebion sy'n ddisgwyliedig gan ein dysgwyr; addasu'r amgylchedd dysgu i enwi ond rhai. 'Darpariaeth Gynhwysol' yw'r enw sy'n cael ei roi ar yr addasiadau yma rydym yn gwneud i gwrdd ag anghenion pob dysgwr. Weithiau bydd dysgwyr yn cael cymorth gan staff arbenigol tu allan i'r dosbarth fel ymyrraeth gynnar i dargedu anghenion penodol fel rhan o'n Darpariaeth Gynhwysol. Gall y staff arbenigol yma fod yn staff o fewn neu o du allan i'r ysgol. Byddwn yn cofnodi ein ymyrraethau targedu mewn dogfen ysgol o'r enw 'Cofnod Targedu'. Byddwn yn trafod yr ymyrraeth dargedu gyda rhieni ac yn gofyn am lofnod i gofnodi eu gwybodaeth o'n darpariaeth.

Os oes pryder penodol am gyrhaeddiadau a/neu gynnydd dysgwyr rydym yn dilyn yr arweiniad yn 'Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018' ac yn 'C d Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021'. Os yw dysgwr yn dangos anghenion o'r fath sy'n cael eu nodi yn yr arweiniad cyfreithiol, bydd yn cael ei adnabod fel dysgwr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Os yw'r ADY yn ddigon arwyddocaol byddwn yn sicrhau Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) er mwyn cefnogi'r dysgwr ac yn cynhyrchu dogfen ffurfiol gyfreithiol o'r enw Cynllun Datblygu Unigol (CDU) i gofnodi pob dim. Bydd rhieni yn rhan bwysig o'n prosesau yn ymwneud â chefnogi dysgwr ag ADY a dim ond pan byddant hwy wedi llofnodi'r CDU bydd hon yn ddogfen gyfreithiol. Bydd CDU yn cael ei adolygu yn flynyddol (pob 6 mis i ddysgwr o dan 5 oed).

Rhoddir enw pob disgybl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar Gofrestr ADY yr ysgol. Yr ysgol sydd yn gyfrifol am ymchwilio i anghenion dysgwyr yn y lle cyntaf. Byddwn yn addasu ein darpariaeth, yn monitro, adolygu ac yn dyrannu adnoddau ar eu cyfer o gyllid yr ysgol ac o'r arian a ddaw gyda lleoliad disgybl. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cyfrannu tuag at gyllido DDdY rhai dysgwyr. Mae'n bolisi gan yr ysgol i gysylltu â rhieni unrhyw ddisgybl pan fydd yn cael ei osod mewn unrhyw gyfnod o ymyrraeth arbenigol a/neu cyn iddo gael ei gyfeirio am asesiadau allanol arbenigol. Rhennir gwybodaeth am gynnydd y disgybl a gwahoddir y rhieni i bob adolygiad. Gellir gweld copi llawn o'r polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol ar wefan yr ysgol neu drwy alw mewn i swyddfa'r ysgol.

Mae gan bob plentyn yr hawl i gymorth a gofal arbennig [Erthygl 23 o'r CCUHP]

*Many children, at some point in their school career, will have additional support needs of some kind. We aim to use detailed identification and assessment methods to identify the specific needs of each pupil and arrange timely and relevant intervention for them. The school also considers talented or especially able pupils as learners with additional support needs.*

*As a part of our teaching duty, we will respond appropriately to needs of all kinds as they are identified. We will respond with strategies such as supplying specific assistive resources in class; differentiating the way we present information to learners; differentiating the tasks set or the responses expected of our learners; adapting the learning environment to name but a few. 'Universal Provision' is the name given to these modifications we make. Sometimes learners receive support from specialist staff outside of their class as early intervention to target specific needs as part of our Universal Provision. These specialist staff can be school staff or specialists from outside the school. We will record our targeting interventions in a school document called the 'Targeting Record'. We will discuss the targeting intervention with parents and request a signature to record their knowledge of and agreement to our provision.*

*If there is a particular concern about a learner's attainments and/or progress, we follow the guidance in the 'Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018' and in the 'Additional Learning Needs Code Wales 2021'. If a learner demonstrates such needs as defined in the legal guidance, s/he will be identified as a learner with 'Additional Learning Needs' (ALN). If the ALN is significant enough we will secure an Additional Learning Provision (ALP) to support her/him. We will create a formal, legal document called an Individual Development Plan (IDP) to record all information. Parents will be an important part of the processes necessary in supporting a learner with ALN. When they have signed the IDP it becomes a legal document. Each IDP will be reviewed annually (every 6 months for a learner under 5 years of age).*

*The name of all pupils with Additional Learning Needs will be placed on the school's ALN Register. It is the school's responsibility to investigate each learner's needs in the first place. We will adjust our provision, monitor, review and allocate resources as necessary from school funding and from the money that comes with pupil placement. The Local Authority will contribute towards the funding of the ALP for some learners. It is the school's policy to contact a pupil's parents when any specialist intervention is given and/or before they are referred for specialist external assessments. We shall ensure that we share information with regards the pupil's progress and parents are invited to all reviews. A full copy of the Additional Learning Needs policy can be found on the school's website or by calling into the school office.*

*Every child has the right to special support and care [Article 23 of the UNCRC]*



## Cyfleoedd cyfartal

### Equal opportunities

Ein prif nod yw sicrhau bod pob unigolyn o’r pwysigrwydd mwyaf ac ymdrechir i roi cyfle cyfartal i bob disgybl ac aelod staff ar bob adeg heb wahaniaethu ar sail rhyw, crefydd, lliw, iaith nac anabled.

## Disgyblion sydd ag anabledau

### Pupils with disabilities

Mae’r ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau mynediad i ddisgyblion a rhieni sydd ag anabledau. Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a’r cartref pan fod disgybl sydd ag anabledau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cychwyn yn yr ysgol.

Mae’r ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion sydd ag anabledau ac yn gwneud pob ymdrech i’w cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

## Y Cwricwlwm

### The Curriculum

Er caiff cwricwlwm yr ysgol ei ddiffinio gan ofynion Llywodraeth Cymru, caiff ei lunio gan aelodau cymuned ein hysgol ac mae’n unigryw i Ysgol Gymraeg Pontybrenin. Rhoddir ystyriaeth gytbwys i ddatblygiad gwybodaeth, sgiliau, cysyniadau ac agweddau, ac mae pwyslais cryf ar brofiadau uniongyrchol.

- Diben ein cwricwlwm yw cynorthwyo ein disgyblion i fod yn:
- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy’n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
  - Cyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a’u gwaith
  - Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a’r byd
  - Unigolion iach, hyderus sy’n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.
  - Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy’n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
  - Cyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a’u gwaith
  - Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a’r byd
  - Unigolion iach, hyderus sy’n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

- Mae’r Cwricwlwm yn cynnwys 6 Maes Dysgu a Phrofiad:
- Leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
  - Mathemateg a Rhifedd
  - Gwyddoniaeth a Thechnoleg
  - Lechyd a Lles
  - Y Dyniaethau
  - Y Celfyddydau Mynegiannol

Tanategir pob Maes Dysgu a Phrofiad gan y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol, sydd yn orfodol.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn elfen orfodol o’r Cwricwlwm i Gymru ac yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Y Dyniaethau. Tra’n rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Y Dyniaethau, sy’n cwrpasu daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg; astudiaethau cymdeithasol ac astudiaethau busnes, mae’r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin tra bod ganddynt eu corff eu hunain o wybodaeth a sgiliau.

*Our main aim is ensuring that every child is of the utmost importance and we strive to provide equal opportunities to each pupil and member of staff, at all times without discriminating on the basis of sex, religion, colour/race, language or disability.*

*The school makes every effort to ensure access for pupils and parents with a disability. Special arrangements will be made between the school and the home when a pupil with a disability or Additional Learning Needs starts at the school.*

*The school is sensitive to the needs of pupils with disabilities and makes every effort to include them in all aspects of school life and work.*

*Whilst the school’s curriculum is defined by the demands of the Welsh Government, it has been created in collaboration with members of our school community and is bespoke to Ysgol Gymraeg Pontybrenin. Equal attention is given to the development of knowledge, skills, concepts and attitudes and considerable emphasis is placed on first-hand experiences*

- The purpose of our curriculum is to support our pupils to be:*
- *Ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives*
  - *Enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work*
  - *Ethical, informed citizens of Wales and the world*
  - *healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society.*

*The Curriculum consists of 6 Areas of Learning & Experience:*

- *Languages, Literacy & Communication*
- *Mathematics & Numeracy*
- *Science & Technology*
- *Health & Wellbeing*
- *Humanities*
- *Expressive Arts*

*All Areas of Learning & Experience are underpinned by the mandatory Literacy, Numeracy and Digital Competence Frameworks.*

*Religion, Values and Ethics (RVE) is also a mandatory element of the Curriculum for Wales and part of the Humanities Area of Learning & Experience. Whilst part of the Humanities Area of Learning & Experience, encompassing geography; history; religion, values and ethics; social studies and business studies, these disciplines share many common themes, concepts and transferable skills whilst having their own discrete body of knowledge and skills.*

## Addysg Grefyddol a Chydaddoli

### Religious Education & Collective worship

Cynhelir gwasanaethau rheolaidd sydd yn Gristnogol eu sylfaen ac yn foesol ac ysbrydol eu pwyslais. Mae gan rieni yr hawl i eithrio eu plant o’r gwasanaeth trwy gyfeirio llythyr at y Pennaeth.

## Addysg Gorfforol

### Physical Education

Mae’r ysgol yn hyfforddi disgyblion mewn amryw o weithgareddau gan gynnwys gemau, gymnasteg, dawns, nofio ac athletau, gyda phob disgybl yn treulio o leiaf awr bob wythnos mewn gwersi Addysg Gorfforol.

Yn ogystal, mae trawsdoriad o gyfleoedd i ddisgyblion fynychu sesiynau hyfforddiant ychwanegol yn wythnosol ar ôl oriau ysgol, gydag amrywiaeth o glybiau allgyrsiol yn cael eu cynnig ar wahanol adegau o’r flwyddyn, e.e pêl-rwyd, pêl-droed, rygbi, traws gwlad a dawnsio zumba.

Mae gan yr ysgol nifer o dimau chwaraeon sy’n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gystadlu yn unigol ac fel aelod o dim. Mae’r timau hyn yn cynnwys:

- Timau pel droed, rygbi a phel rwyd bechgyn a merched sy’n cystadlu yng nghystadlaethau’r Urdd a gwyliau pel droed eraill.
- Timau bechgyn a merched nofio sy’n cystadlu yng Ngala’r Urdd.

*Assemblies based on Christian principles, which are moral and spiritual in emphasis, are held regularly. The parent has the right to withdraw his/her child from assemblies by writing to the Headteacher*

*The school trains pupils in a variety of activities, including games, gymnastics, dance, swimming and athletics, with each pupil receiving at least an hour of physical education each week.*

*Additionally, there are a cross-section of opportunities for pupils to attend weekly after-school training, with a wide range of extra-curricular clubs being offered at different times of the year e.g. netball, football, rugby, cross-country and zumba.*

*The school has a number of sports teams that provide an opportunity for pupils to compete individually and as part of a team. These teams include:*

- *Boys and girls football, rugby and netball teams that compete in Urdd competitions and in local festivals.*
- *Boys and girls swimming teams that compete in the Urdd Gala.*







## Cerddoriaeth Music

Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn ei thraddodiad cerddorol, gyda cherddoriaeth yn chwarae rhan allweddol ym mywyd disgyblion yr ysgol ers blynyddoedd maith.

Rhoddir cynnig i ddisgyblion i ddysgu chwarae / canu amrywiaeth o offerynnau, gan gynnwys y piano, telyn, ffidil, fiola, cello, fflwt, clarinet, gitar a thrwmped. Er bod y gwersi hyn yn cael eu cynnal yn yr ysgol, fe'u darperir gan athrawon cerddoriaeth allanol sydd yn delio'n uniongyrchol gyda rhieni a chodir ffi bach am eu gwasanaethau.

Croesawir pob disgybl sydd â diddordeb canu i fod yn aelod o gôr yr ysgol.

Rydym yn cynrychioli Rhanbarth Gorllewin Morgannwg yn gyson yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng nghystadlaethau cerddorol, gan gynnwys cystadlaethau torfol ac unigol. Cynhelir cyngherddau Nadolig lle caiff pob disgybl y cyfle i ymddangos ar y llwyfan.

*The school is proud of its musical tradition. Music has played a key role in the lives of the school's pupils for many years.*

*Pupils are given the opportunity to learn a variety of instruments, including piano, harp, violin, viola, cello, flute, clarinet, guitar and trumpet. Whilst these lessons are delivered in school, they are provided by external music teachers who deal directly with parents and charge a small fee for their services.*

*Every pupil who has an interest in singing is welcome to become a member of the school choir.*

*We regularly represent the West Glamorgan region in music competitions in the Urdd National Eisteddfod, including group and individual competitions. We also host Christmas concerts where every pupil has the opportunity to appear on the stage.*

## Addysg Rhyw a Pherthnasoedd Relationship & Sexuality Education

Mae Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (ARhPh) yn elfen orfodol o Cwricwlwm i Gymru. Rhaid i'r cynnwys ARhPh fod yn gynhwysol ac adlewyrchu amrywiaeth. Rhaid iddo gynnwys dysgu sy'n datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd gwahanol ac amrywiaeth o berthnasoedd, rhywedd a rhywioldeb, gan gynnwys bywydau LGBTQ+. Mae hefyd yn cynnwys dysgu am wrth-fwlio, perthnasoedd iach a diogelwch ar-lein fel rhan o ddull ysgol gyfan.

Mae nyrsys ysgol yn ymweld â'r ysgol ddwywaith y fwyddyn a defnyddiant raglenni pwrpasol yn ymwneud â glasoed gyda phlant blwyddyn 5 a 6. Bydd y nyrs hefyd yn trafod datblygiad y corff mewn modd addas i deimladau ac aeddfedrwyd y disgyblion.

*Relationships and Sexuality Education (RSE) is a mandatory element of the Curriculum for Wales. The RSE content must be inclusive and reflect diversity. It must include learning that develops pupils' awareness and understanding of different identities, views and values and a diversity of relationships, gender and sexuality, including LGBTQ+ lives. It also includes learning on anti bullying, healthy relationships and online safety as part of a whole school approach.*

*The school nurse visits the school twice yearly with suitable programmes prepared discussing puberty with year 5 and 6. The nurse will also discuss physical development in a manner appropriate to the sensitivities and maturity of the pupils.*





## Cwynion ynglŷn â'r cwricwlwm

### Complaint in relation to the curriculum

Gellir gwneud cwyn ynglŷn â'r Cwricwlwm yn unol â'r trefniadau a sefydlwyd o dan Adran 409 o Ddeddf Diwygio Addysg 1996. Cysyllter â'r Pennaeth am ragor o wybodaeth.

*Complaints in relation to the curriculum can be made in line with the arrangements set out under Section 409 of the Education Reform Act 1996. Please contact the head teacher for more information.*

## Ymweliadau

### Visits

Trefnir ymweliadau yn ymwneud â'r themau tymhorol. Bydd yr athrawon dosbarth yn ymchwilio i ymweliadau pwrpasol fydd yn cyfoethogi dysgu ac addysgu effeithiol. Gwahoddir siaradwyr gwadd i annerch y plant yn yr ysgol.

*Visits are arranged in relation to term themes. Class teachers will research appropriate visits that will enrich learning and effective education. Guest speakers are also invited to address the children at the school.*

## Gweithgareddau Allgyrsiol

### Extra-curricular activities

Cynigir ystod o weithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion Blwyddyn 1 i 6. Mae'r holl weithgareddau yn agored i fechgyn a merched fel ei gilydd ac yn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion feithrin eu sgiliau mewn chwaraeon. Mae'r gweithgareddau hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch llai ffurfiol.

*A range of activities is offered to pupils in Years 1 - 6. All activities are open to boys and girls alike and offer an opportunity for pupils to further develop their skills in a range of fields. These activities also provide an opportunity to converse in Welsh in a less formal environment.*

Mae gan bob plentyn yr hawl i gyfarfod â ffrindiau ac ymuno â grwpiau a chlybiau [Erthygl 15 o'r CCUHP]

*Every child has the right to meet friends and to join groups & clubs [Article 15 of the UNCRC]*

## Gofal bugeiliol a gwasanaethau cefnogol

### Pastoral care and support services

Yr athro neu'r athrawes ddosbarth sydd yn gyfrifol am gynnydd addysgiadol, lles a gofal bugeiliol disgyblion o ddydd i ddydd, gyda'r pennaeth yn goruchwyllo. Cyflogir swyddog lles i gynorthwyo'r disgyblion sydd â phryderon a phroblemau emosiynol. Gofynnir yn garedig i rieni hysbysu'r ysgol os oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'u plant.

*The class teacher is responsible for the day-to-day educational development, welfare and pastoral care of pupils, with the head teacher supervising. A welfare officer is employed to support pupils with concerns and emotional problems. We kindly ask that parents notify the school if they have any concerns in relation to their child.*

Gellir cyfeirio disgyblion i amrywiaeth o wasanaethau cefnogol ar gais yr ysgol. Os oes gennych unrhyw bryder, gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i'w drafod.

*Pupils can be referred to a wide range of support services at the request of the school. If you have any concerns, we ask that you contact the school to make an appointment to discuss the matter.*



## Ymddygiad

### Behaviour

Credwn yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin fod gofal a rheolaeth yn gyfrifoldeb i bawb. Drwy ymgorffori'r egwyddorion canlynol, gobeithiwn y bydd ein polisi yn sicrhau amgylchedd lawn gofal i bob plentyn.

- Canolbwyntir ar ganmol yn hytrach na cheryddu
- Bydd y ganmoliaeth yn ddilys a'r feirniadaeth yn adeiladol
- Ystyrir cyfleon cyfartal ar bob achlysur
- Dylai plant dderbyn awdurdod oedolyn, ond anogir datblygiad hunaniaeth bob amser
- Rydym oll yn sensitif i anghenion unigol y plentyn

Dylai'r plant fod yn gyfarwydd â chòd ymddygiad yr ysgol, y rheolau a'r rhesymau drostynt ynghyd ag arfer yr ysgol o ran gwobrau a sancsiynau.

- Mae gennym systemau wobrwyo yn y dosbarthiadau sydd yn annog ymddygiad positif.
- Mae rheolau a disgwyliadau a chòd ymddygiad ar gyfer amseroedd chwarae wedi'u harddangos yn amlwg.

Credwn mewn cydraddoldeb i bawb. Ni wahaniaethir ar sail rhyw, hil na chred. Dysgir y plant i werthfawrogi gwahaniaethau ac amrywiaethau.

Mae gan bob plentyn yr hawl i fod y gorau gallwn fod [Erthygl 29 o'r CCUHP]

*At Ysgol Gymraeg Pontybrenin we believe that care and order is a responsibility for all. By incorporating the following principles, we believe that our policies will ensure a caring environment for every pupil.*

- Concentration on praise rather than punishment
- The praise will be genuine and the criticism constructive
- Equal opportunities shall always be considered
- Children should accept the authority of adults, while individualism should always be encouraged
- We are all sensitive to the needs of the individual

*The children should be familiar with the school's code of conduct, the rules and the reasons behind them along with the school's rewards and sanctions procedures.*

- We have classroom reward schemes that encourage positive behaviour.
- Rules and expectations for playtimes are clearly displayed on the yard.

*We believe in equality for all. No discrimination shall be made on the grounds of sex, race or belief. The children are taught to be sensitive towards others whilst respecting differences.*

*Every child has the right to be the best they can be [Article 29 of the UNCRC]*





## Diogelu ac amddiffyn plant Child Protection and safeguarding

Mae pob aelod o staff yr ysgol yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant. Os ceir pryderon ynglŷn â cham-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Gweithrefnau Diogelu Cymru 2019, i hysbysu Cyd-gysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol.

Gall y cyd-gysylltydd ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i gyd-gysylltydd yr ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â chanllawiau a phrotocol Dinas a Sir Abertawe.

Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio.

Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r disgybl. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau.

Y Pennaeth, Mr Ceri Scourfield, yw Arweinydd Dynodedig Diogelu yr ysgol, neu yn ei absenoldeb, Mr Gethin Horan, y Dirprwy Bennaeth.

Y Llywodraethwr gyda chyfrifoldeb am ddiogelu plant yw'r Cyng Dr Robert Smith, Cadeirydd y Llywodraethwyr.

*Every member of staff is responsible for child protection and safeguarding. If there are concerns relating to physical, emotional or sexual abuse, then the staff have a duty, in line with the Wales Safeguarding Procedures 2019, to notify the School's Child Protection Co-ordinator.*

*The co-ordinator can consult with professional colleagues as well as appropriate agencies such as Health and Social Services. Following these discussions, the school co-ordinator may have to officially refer the child to the Social Services Department, in line with the procedures and protocols of the City and County of Swansea. The Social Services Department will decide whether or not intervention is required.*

*Owing to the nature of the accusations it will not always be appropriate to discuss matters with parents prior to referring the pupil. Social Services and the police are responsible for investigating any accusations.*

*The Headteacher, Mr Ceri Scourfield, is the Designated Safeguarding Lead (DSL), or in his absence, Mr Gethin Horan, the Deputy Headteacher.*

*The Governor with responsibility for child protection is Cllr Dr Robert Smith, Chairman of the Governors.*

## Iechyd a diogelwch Health & Safety

Cymerir pob gofal posibl am ddiogelwch y disgyblion tra byddant yn yr ysgol. Os bydd disgybl yn sâl neu mewn damwain, cysylltir â'r rhieni. Mewn achosion brys, bydd disgyblion yn cael eu trosglwyddo i Adran Ddamweiniau Ysbyty Treforys.

Rhoddir moddion i ddisgyblion o dan amgylchiadau pendol yn unig - a hynny - a hynny ar ôl derbyn cyfarwyddyd ysgrifenedig gan riant.

Ni chaniateir i ddisgyblion adael yr ysgol yn gynnar heb ganiatâd. Os fydd newid yn y modd y bydd disgybl yn mynd adref, gofynnir i'r rhieni hysbysu'r ysgol o flaen llaw am y trefniadau a wnaed.

Mae'r ysgol yn goruchwyllo trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer disgyblion a staff yn rheolaidd. Rhaid i bob ymwelydd ymweld â'r brif fynedfa cyn cael mynediad i'r ysgol, a llofnodi mewn yn electronig.

Rhoddir bathodyn adnabod i bob ymwelydd gan yr ysgrifenyddes. Os fydd ymwelwyr yn ymddwyn yn amhriodol tuag at ddisgyblion neu aelodau staff, yna gofynnir iddynt adael safle yr ysgol ar unwaith a chysylltir â'r heddlu pan fo hynny'n briodol.

Mae gan yr ysgol system larwm lladron a cheir ymarferion tân yn dymhorol.

Mae gan bob plentyn yr hawl i fod yn ddiogel [Erthygl 19 o'r CCUHP]

Mae gan bob plentyn yr hawl i weld meddyg os ydy yn sâl [Erthygl 24 o'r CCUHP]

*Every effort is made to ensure the safety of the pupils whilst they are in the school. If a child is ill or has an accident, the parents will be contacted. In emergency situations, children will be transferred to Accident and Emergency at Morriston Hospital.*

*Medicine will be given to children under certain circumstances only - and then, only with the written permission of a parent.*

*Children are not allowed to leave the school early without permission. If different arrangements are made for the way that pupils will go home from school, we ask that parents notify the school beforehand of these changes.*

*The school regularly supervises health and safety arrangements for pupils and staff. Every visitor must visit the main entrance prior to admittance to the school and must sign in electronically.*

*All visitors are provided with an I.D. badge by the secretary. If any visitor acts inappropriately towards pupils or staff, then they will be asked to leave the school premises and the police will be called, if appropriate. The school has a burglar alarm and holds fire drills every term.*

*Every child has the right to be safe [Article 19 of the UNCRC]  
Every child has the right to see a doctor if they are unwell [Article 24 of the UNCRC]*





## Presenoldeb Attendance

Rydym am i'n plant brofi llwyddiant ac mae presenoldeb da yn rhan annatod o hwn.

Eich cyfrifoldeb chi fel rhiant yw sicrhau bod eich plentyn yn bresennol yn rheolaidd. Os digwydd i'ch plentyn fod yn absennol o'r ysgol a wnewch chi sicrhau eich bod yn cysylltu â'r ysgol boed trwy alwad ffôn neu yn y swyddfa ar fore cyntaf absenoldeb eich plentyn. Os na wneir hyn, fe fydd eich plentyn yn cael ei gofnodi fel absenoldeb heb ganiatâd. Mae swyddog lles yn archwilio'r cofrestrau yn gyson ar ran yr awdurdod ac ar gais yr ysgol. Bydd ymweliadau cartref yn dilyn lle bo angen.

Y mae hi'n bwysig fod plant yn brydlon er mwyn cofrestru ac hefyd i osgoi colli esboniad yr athro / athrawes ar ddechrau'r dydd, fel nad ydynt yn amharu ar rediad gwersi. Agorir drysau'r ysgol i blant am 8:40yb, gyda chofrestru yn cychwyn yn brydlon am 8:50yb.

Y mae presenoldeb cyson yn hollbwysig a dylid osgoi trefnu gwyliau teuluol yn ystod tymor yr ysgol. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid rhoi gwybod i'r pennaeth am eich bwriad o fynd ar wyliau, a hynny yn ysgrifenedig.

Cynhwysir y wybodaeth am bresenoldeb fel atodiad yn Adroddiad Blynnyddol y Llywodraethwyr.

Mae gan bob plentyn yr hawl i fynd i'r ysgol a chael addysg [Erthygl 28 o'r CCUHP]

*We all want our children to succeed and good attendance is integral to this.*

*It is your duty as a parent to ensure that your child attends school regularly. Should your child be absent from school please ensure that the school is informed by telephone or in person on the first day of your child's absence. If this is not done, then your child will be marked as having an unauthorised absence. The education welfare officer regularly inspects the register on behalf of the local authority. Home visits will follow when needed.*

*It is important that children should be punctual for registration and also to avoid missing the teachers' explanation of the day's work and to prevent the interruption of lessons. Doors open at 8.40am and registration commences promptly at 8.50am.*

*Regular attendance is extremely important. We kindly suggest that all effort should be made to avoid taking family holidays during term time. If this is impossible, you must inform the headteacher of your intention in writing.*

*Information relating to attendance is included as an appendix to the Governors Annual Report.*

*Every child has the right to attend school and receive an education [Article 28 of the UNCRC]*

## Cyswllt rhieni Partnership with parents

Mae perthynas agos a gweithgar rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae Ffrindiau Ysgol Gymraeg Pontybrenin yn gweithio'n ddiflino ac yn codi symiau sylweddol o arian yn flynyddol, sy'n ein caniatáu i brynu adnoddau ychwanegol y bydd yr holl ddisgyblion yn elwa ohonynt, e.e ipads, llyfrau darllen, cysgodion allanol, adnoddau chwarae i'r buarth ayyb. Croesawir aelodau newydd – am fwy o fanylion, cysylltwch â'r ysgol.

Cynhelir nosweithiau agored penodol yn gynnar yn Nhymor yr Hydref, lle caiff athrawon rannu gwybodaeth am themâu'r flwyddyn, trefniadau dosbarth, darllen, ymweliadau ayyb. Bydd rhain yn cael eu cynnal ar draws yr ysgol. Trefnir nosweithiau rhieni penodol yn dymhorol, gyda rhieni/gwarchodwyr yn derbyn gwahoddiad i drafod cynnydd eu plant gyda'r athro/awes ddosbarth.

Anogir rhieni/gwarchodwyr i ymweld â'r ysgol dwywaith y flwyddyn, yn ystod oriau ysgol, er mwyn rhannu yng ngwaith eu plant ac i ddathlu eu cyflawniadau.

Gwahoddir rieni i gwrdd â'r athrawon sydd â chyfrifoldeb am yr Uned Feithrin i drafod mynediad eu plant cyn iddynt gychwyn yn yr ysgol. Mae croeso i ddarpar rieni newydd i'r ysgol ymweld â'r ysgol, ond gofynnir i chi wneud trefniadau ymlaen llaw.

*There is a close working relationship between the home and the school. The 'Friends of Ysgol Gymraeg Pontybrenin' work tirelessly and raise substantial sums yearly, which enables us to purchase additional resources – iPads, reading books, external canopies, yard play equipment etc. New members are welcome – for more details, contact the school.*

*Open evenings are held early in the autumn term, where teachers share information on the year's themes, classroom procedures, reading, school visits etc. These will be held across the school. Termly parents' evenings are arranged, with an appointment system where parents can discuss their child's progress.*

*Parents/Guardians are encouraged to visit the school twice a year, during school hours, in order to share in their children's work and celebrate their academic achievements.*

*Parents are invited to meet the Nursery class teachers before their child is admitted to school. All new and prospective parents are welcome to visit the school to view and discuss relevant matters. We do ask that you make an appointment to do so.*



## Dyddiadau Tymor

### Term Dates

Ceir manylion am ddyddiadau tymhorau y flwyddyn ysgol ar ein gwefan. Mae croeso i chi hefyd ofyn am gopi o swyddfa'r ysgol.

## Cwynion

### Procedure for Complaints

Dylid ceisio datrys unrhyw achosion o gwyn yn y cychwyn cyntaf drwy gysylltu â'r athro/athrawes dosbarth neu'r Pennaeth. Pan nad yw hynny'n ddigonol, gofynnir i rieni ddilyn y trefniadau a amlinellir yn ein polisi cwynion. Ceir copïau o swyddfa'r ysgol neu ar ein gwefan.

Mae gan bob plentyn yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd ac i rywun wrando arnynt [Erthygl 12 o'r CCUHP]

## Hyfforddiant mewn swydd

### INSET days

Trefnir HMS a datblygiadau cwricwlaidd o fewn y flwyddyn addysgol. Ar y diwrnodau hynny fe fydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion. Rhoddir rhybudd priodol o'r dyddiadau cau.

## Tywydd garw

### Inclement weather

Gwneir pob ymdrech i gadw'r ysgol ar agor. Pan na fydd hi'n bosib gwneud hynny, cysylltir â rhieni fesul neges destun a'u hysbysu drwy gyfryngau lleol. Pan fydd angen cau'r ysgol yn gynnar, cysylltir â'r cartref yn gyntaf.

*Diolch am ddarllen ein prospectws.*  
*Am wybodaeth pellach am yr ysgol ac i ddarllen y newyddion diweddaraf, ymwelwch â gwefan yr ysgol - [www.yggpontybrenin.com](http://www.yggpontybrenin.com)*

*Details of term dates for the school year can be found on the school's website. Alternatively, copies can be obtained via the school office.*

*Initially you should try and resolve any complaint by contacting the class teacher or the head teacher. If this is not sufficient, parents are asked to follow the arrangements outlined in our complaints policy. Copies are held in the school office or on our website.*

*Every child has the right to be heard [Article 12 of the UNCRC]*

*INSET and curriculum development are arranged within the academic year. On these days the school will be closed to pupils. Appropriate warning will be given about the closure dates.*

Every effort is made to keep the school open. When this is not possible, parents will be contacted by text message and the closure will be advertised through local media. When the school is required to close early, we will contact the home in the first instance.

*Thank you for reading our prospectus.*  
*For further information about the school and to read the latest news, visit the school website - [www.yggpontybrenin.com](http://www.yggpontybrenin.com)*







Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin  
Heol Casllwchwr  
Gorseinon  
Abertawe  
SA4 6AU

Rhif ffôn: 01792 894210  
E-bost: [yggpontybrenin@pontybrenin.swansea.sch.uk](mailto:yggpontybrenin@pontybrenin.swansea.sch.uk)  
Gwefan: [www.yggpontybrenin.com](http://www.yggpontybrenin.com)  
X: @PontybreninYGG

Rhif derbyn yr ysgol: 71

Nifer y disgyblion ar y gofrestr: 563

Llywodraethwyr yr ysgol  
Cadeirydd y Llywodraethwyr –  
Y Cynghorydd Dr Robert Smith  
Arddongosir rhestr enwau y Llywodraethwyr  
a'r staff ar hysbysfwrdd yng nghyntedd yr ysgol  
ac ar ein gwefan.

Math o ysgol  
Ysgol Gynradd Gymraeg Benodedig

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin  
Loughor Road  
Gorseinon  
Swansea  
SA4 6AU

Phone Number: 01792 894210  
E-mail: [yggpontybrenin@pontybrenin.swansea.sch.uk](mailto:yggpontybrenin@pontybrenin.swansea.sch.uk)  
Website: [www.yggpontybrenin.co.uk](http://www.yggpontybrenin.co.uk)  
X: @PontybreninYGG

School admission number: 71

Number of pupils on roll: 563

School governors  
Chair of Governors: Cllr Dr Robert Smith  
A list of the governors and staff can be  
found on the noticeboard in the school foyer  
and on our website.

Type of school  
A Welsh-Language Primary School